

TGAU



TGAU CBAC ALMAENEG

CYMERADWYWYD GAN CYMWYSTERAU CYMRU

MANYLEB

Addysgu o 2016
l'w ddyfarnu o 2018

Fersiwn 4 Ionawr 2022



Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru ar gael i ganolfannau Lloegr.

CRYNODEB O NEWIDIADAU

Fersiwn	Disgrifiad	Rhif y dudalen
2	Newidiwyd yr adran 'Cofrestru' i egluro rheolau ailsefyll a throsglwyddo marciau'r Asesu Di-arholiad.	17
3	Newidiwyd Adran 3.2 er mwyn egluro y bydd nifer y tasgau sy'n rhan o'r Asesiad Di-arholiad yn Uned 1 yn newid o naw i chwech. Bydd y newid hwn yn digwydd o haf 2021.	14
4	Newidiwyd Adran 2.1 ac Adran 3.2 i egluro y bydd ymgeiswyr yr haen Sylfaenol, yn yr asesiad o siarad (Uned 1) yn cael ysgogiad llun a thri chwestiwn y maent wedi'u gweld o'r blaen ac y gofynnir un cwestiwn ychwanegol iddynt nad ydyw wedi'i weld o'r blaen. Nid yw trefniadau ymgeiswyr haen Uwch yn newid. Byddan nhw'n cael dau gwestiwn y maent wedi'u gweld o'r blaen a dau gwestiwn nad ydynt wedi'u gweld o'r blaen. Bydd y newid hwn ar waith o arholiadau haf 2023.	9 a 16



TGAU CBAC mewn ALMAENEG

I'w addysgu o 2016

I'w ddyfarnu o 2018

Mae'r fanyleb hon yn bodloni'r Egwyddorion Cymwysterau TGAU sy'n pennu gofynion yr holl fanylebau TGAU newydd neu ddiwygiedig a ddatblygwyd i'w haddysgu yng Nghymru o fis Medi 2016.

	Tudalen
Crynodeb o'r asesu	2
1. Rhagarweiniad	3
1.1 Nodau ac Amcanion	3
1.2 Dysgu blaenorol a dilyniant	4
1.3 Cydraddoldeb a mynediad teg	4
1.4 Bagloriaeth Cymru	5
1.5 Persbectif Cymreig	5
2. Cynnwys y pwnc	6
2.1 Uned 1	9
2.2 Uned 2	10
2.3 Uned 3	11
2.4 Uned 4	12
3. Asesu	13
3.1 Amcanion asesu a phwysoli	13
3.2 Trefniadau ar gyfer asesiad di-arholiad	14
4. Gwybodaeth dechnegol	17
4.1 Cofrestru	17
4.2 Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl	17
Atodiadau	19
A: Rhestr geirfa	19
B: Gofynion gramadeg	60
C: Cyfarwyddiadau	65

TGAU ALMAENEG (Cymru)

CRYNODEB O'R ASESU

Uned 1: Siarad

Prawf llafar: 7–9 munud (Haen Sylfaenol)
10-12 munud (Haen Uwch)

25% o'r cymhwyster
GMU

60 marc; 100

Tair tasg:

Chwarae rôl
Trafodaeth am lun ar gerdyn
Sgwrs – Rhan 1 a Rhan 2

Ni chaniateir i ddysgwyr ddefnyddio geiriaduron yn unrhyw ran o'r asesiad.

Uned 2: Gwranddo

Arholiad ysgrifenedig: 35 munud (Haen Sylfaenol)
45 munud (Haen Uwch)

25% o'r cymhwyster
GMU

45 marc; 100

Tasgau gwranddo a deall gydag ymatebion di-eiriau ac ysgrifenedig

Ni chaniateir i ddysgwyr ddefnyddio geiriaduron yn unrhyw ran o'r asesiad.

Uned 3: Darllen

Arholiad ysgrifenedig: 1 awr (Haen Sylfaenol)
1 awr 15 munud (Haen Uwch)

25% o'r cymhwyster
GMU

60 marc; 100

Tasgau darllen gydag ymatebion di-eiriau ac ysgrifenedig, yn cynnwys un dasg yn cyfieithu o'r Almaeneg i'r Gymraeg/Saesneg

Ni chaniateir i ddysgwyr ddefnyddio geiriaduron yn unrhyw ran o'r asesiad.

Uned 4: Ysgrifennu

Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 15 munud (Haen Sylfaenol)
1 awr 30 munud (Haen Uwch)

25% o'r cymhwyster
GMU

60 marc; 100

Tasgau ysgrifennu yn cynnwys un dasg yn cyfieithu o'r Gymraeg/Saesneg i'r Almaeneg

Ni chaniateir i ddysgwyr ddefnyddio geiriaduron yn unrhyw ran o'r asesiad.

Bydd y cymhwyster llinol hwn ar gael ym mis Mai/Mehefin bob blwyddyn. Caiff ei ddyfarnu am y tro cyntaf yn haf 2018.

Rhif Cymhwyster ar restr [The Register](#): 603/0666/X

Rhif Cymeradwyo Cymwysterau Cymru ar restr [QiW](#): C00/0796/7

TGAU ALMAENEG

1 RHAGARWEINIAD

1.1 Nodau ac amcanion

Mae'r fanyleb TGAU hon mewn Almaeneg i'w defnyddio yng Nghymru yn seiliedig ar gred bod dysgwyr sy'n astudio iaith dramor fodern yn datblygu eu dyhead a'u gallu i gyfathrebu a deall siaradwyr Almaeneg mewn amrywiol gyd-destunau ac ar gyfer amrywiaeth o ddibenion.

Mae'r fanyleb yn cefnogi'r nod y bydd astudio iaith dramor fodern yn ehangu gorwelion, yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth ddiwylliannol ac yn meithrin sgiliau trosglwyddadwy er enghraifft hyder, cyfathrebu, datrys problemau a chreadigedd.

Mae rhoi sylfaen gadarn i'r dysgwyr i'w paratoi nhw ar gyfer astudio iaith yn y dyfodol hefyd yn un o nodau'r fanyleb.

Bydd manyleb TGAU CBAC mewn Almaeneg yn galluogi dysgwyr i:

- datblygu eu gallu i gyfathrebu'n hyderus ac yn glir â siaradwyr brodorol ar lafar ac yn ysgrifenedig, gan gyfleu'r hyn maent am ei ddweud gyda chywirdeb cynyddol
- mynegi a datblygu meddyliau a syniadau yn ddigymell ac yn rhugl
- gwrandao ar a deall iaith safonol wedi'i hynganu'n glir ar gyflymder arferol bron
- dyfnhau eu gwybodaeth am sut mae iaith yn gweithio a chyfoethogi eu geirfa er mwyn iddynt gynyddu eu defnydd a dealltwriaeth annibynnol o iaith estynedig mewn amrywiaeth eang o gyd-destunau
- meithrin gwybodaeth, sgiliau a ffyrdd o feddwl newydd drwy'r gallu i ddeall ac ymateb i amrywiaeth gyfoethog o ddeunydd llafar ac ysgrifenedig dilys, wedi'i addasu a'i dalfyrro, fel y bo'n briodol, gan gynnwys testunau llenyddol
- datblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ddiwylliant a hunaniaeth y gwledydd a chymunedau lle mae'r iaith yn cael ei siarad
- cael eu hannog i wneud cysylltiadau priodol rhwng meysydd eraill yn y cwricwlwm i alluogi dysgu dyfnach a dwyieithog, lle gall yr iaith ddod yn fodd o lunio a chymhwyso gwybodaeth
- datblygu sgiliau dysgu iaith i'w defnyddio ar unwaith ac i'w paratoi nhw i astudio a defnyddio'r iaith ymhellach yn yr ysgol, addysg uwch neu mewn cyflogaeth
- datblygu strategaethau iaith, gan gynnwys strategaethau atgyweirio.

Mae'r fanyleb yn bodloni gofynion Llywodraeth Cymru ar gyfer ieithoedd tramor modern. Mae'r cynnwys a'r strwythur wedi cael eu datblygu yn seiliedig ar ymgynghoriad ag athrawon gweithredol, uwch arholwyr ac arbenigwyr pwnc.

Rhodddwyd ystyriaeth i'r canlynol yn ogystal:

- hygyrchedd asesiadau ar gyfer dysgwyr o wahanol alluoedd
- testunau o ddiddordeb a pherthnasedd i ddysgwyr
- asesiadau sy'n gwobrwyo naturioldeb a chreadigedd gan y dysgwr
- hyd pob asesiad.

1.2 Dysgu blaenorol a dilyniant

Nid oes gofynion dysgu blaenorol ar gyfer y fanyleb hon. Yr ysgol/coleg sydd i benderfynu ar unrhyw ofynion sy'n cael eu pennu o ran cael mynediad i gwrs sy'n seiliedig ar y fanyleb hon.

Mae'r fanyleb hon yn adeiladu ar gynnwys pwnc a addysgir yn nodweddiadol ar gyfer cyfnod allweddol 3 ac mae'n gweithredu fel sail addas ar gyfer astudio Almaeneg naill ai ar lefel UG neu Safon Uwch. Yn ogystal, mae'r fanyleb yn darparu cwrs astudio sy'n gydlynol, boddhaol ac yn werth chweil i'r dysgwyr hynny nad ydynt yn symud ymlaen i astudio ymhellach yn y pwnc hwn.

1.3 Cydraddoldeb a mynediad teg

Gellir astudio'r fanyleb hon gan unrhyw ddysgwr, beth bynnag fo'i ryw, cefndir ethnig, crefyddol neu ddiwylliannol. Lluniwyd y fanyleb i osgoi, lle bo'n bosibl, nodweddion a allasai, heb gyfiawnhad, ei gwneud yn fwy anodd i ddysgwr lwyddo oherwydd bod ganddynt nodwedd benodol wedi ei hamddiffyn.

O dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 y nodweddion penodol wedi'u hamddiffyn yw oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol.

Mae'r fanyleb hon wedi'i thrafod â grwpiau sy'n cynrychioli buddiannau ystod amrywiol o ddysgwyr, ac adolygir y fanyleb yn gyson.

Gwneir addasiadau rhesymol ar gyfer dysgwyr penodol fel bod yr asesiadau o fewn eu cyrraedd (e.e. caniateir i ymgeiswyr ddefnyddio Dehonglydd Iaith Arwyddion, gan ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain). Mae gwybodaeth am addasiadau rhesymol i'w chael yn nogfen y Cyd-gyngor Cymwysterau (CGC): *Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol: Cymwysterau Cyffredinol a Galwedigaethol*.

Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan y CGC (www.icq.org.uk). Gan fod darpariaeth yn cael ei gwneud ar gyfer addasiadau rhesymol, prin iawn fydd nifer y dysgwyr fydd wedi'u hatal yn llwyr rhag unrhyw ran o'r asesiad.

1.4 Bagloriaeth Cymru

Dylai dysgwyr, wrth ddilyn y fanyleb hon, gael cyfleoedd, lle bo'n briodol, i ddatblygu'r sgiliau sy'n cael eu hasesu drwy Dystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru:

- Llythrennedd
- Rhifedd
- Llythrennedd Ddigidol
- Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau
- Cynllunio a Threfnu
- Creadigedd ac Arloesi
- Effeithiolrwydd Personol.

1.5 Persbectif Cymreig

Rhaid i ddysgwyr, wrth ddilyn y fanyleb hon, ystyried persbectif Cymreig os bydd cyfle i wneud hynny'n deillio'n naturiol o'r deunydd pwnc ac os byddai gwneud hynny'n cyfoethogi dealltwriaeth dysgwyr o'r byd o'u cwmpas fel dinasyddion o Gymru yn ogystal â'r DU, Ewrop a'r Byd.

2 CYNNWYS Y PWNC

Mae pedair uned yn y cymhwyster hwn: mae Uned 1 yn asesiad di-arholiad ar lafar, mae Uned 2 yn arholiad gwrando, mae asesiad 3 yn arholiad darllen ac mae Uned 4 yn arholiad ysgrifenedig.

Trefnwyd y cyd-destun ar gyfer dysgu'r iaith ar sail **tair thema eang**:

- Hunaniaeth a diwylliant
- Cymru a'r Byd – meysydd o ddiddordeb
- Cyflogaeth ac astudiaeth gyfredol ac yn y dyfodol

Mae pob thema eang wedi'i rhannu'n is-themâu.

Hunaniaeth a diwylliant	Cymru a'r Byd – meysydd o ddiddordeb	Cyflogaeth ac astudiaeth gyfredol ac yn y dyfodol
Diwylliant ieuenctid • Hunan a Pherthnasoedd • Technoleg a chyfryngau cymdeithasol Ffordd o Fyw • Iechyd a Ffitrwydd Corfforol • Adloniant a hamdden Arferion a Thraddodiadau • Bwyd a diod • Gwyliau a dathliadau	Cartref a'r Ardal Leol • Ardaloedd lleol o ddiddordeb • Teithio a Thrafnidiaeth Y Byd Ehangach • Nodweddion lleol a rhanbarthol yr Almaen a gwledydd Almaeneg eu hiaith • Gwyliau a thwristiaeth Cynaliadwyedd Byd-eang • Amgylchedd • Materion cymdeithasol	Astudiaeth Gyfredol • Bywyd ysgol/ coleg • Astudiaethau ysgol/ coleg Menter, Cyflogadwyedd a Chynlluniau'r Dyfodol • Sgiliau a rhinweddau personol • Astudiaeth ôl-16 • Cynlluniau gyrfa • Cyflogaeth

Mae'r fanyleb yn cefnogi dysgwyr i allu defnyddio eu sgiliau ieithyddol mewn cyd-destunau personol, cyhoeddus, yn y gwaith ac mewn addysg.

Cwmpas yr Astudiaeth

Wrth astudio'r cymhwyster hwn, dylai dysgwyr gael eu haddysgu am y cynnwys canlynol:

Gwrando: deall ac ymateb i fathau gwahanol o iaith lafar

- dangos dealltwriaeth gyffredinol a manwl o wahanol fathau o iaith lafar
- dilyn a deall iaith safonol eglur gan ddefnyddio iaith gyfarwydd ar draws amrywiaeth o gyd-destunau penodol
- adnabod y neges gyffredinol, pwyntiau allweddol, manylion a safbwyntiau mewn amrywiaeth o ddarnau llafar byr a hirach, yn cynnwys rhywfaint o iaith fwy cymhleth, gan adnabod y berthynas rhwng digwyddiadau o'r gorffennol, y presennol a'r dyfodol
- casglu'r ystyr o amrywiaeth o destunau llafar byr a hirach, yn cynnwys peth iaith gymhleth a deunydd mwy haniaethol, gan gynnwys darnau naratif byr a deunydd gwirioneddol yn trafod amrywiaeth eang o themâu cyfoes a diwylliannol perthnasol
- adnabod ac ymateb i wybodaeth allweddol, themâu pwysig a syniadau mewn testun llafar mwy estynedig, gan gynnwys ffynonellau gwirioneddol, wedi'u haddasu a'u talfyrru, drwy allu ateb cwestiynau, dethol gwybodaeth, gwerthuso a dod i gasgliadau.

Siarad: cyfathrebu a rhyngweithio'n effeithiol wrth siarad

- cyfathrebu a rhyngweithio'n effeithiol wrth siarad at ddibenion amrywiol ar draws amrywiaeth o gyd-destunau penodol
- cymryd rhan mewn sgwrs fer, yn gofyn ac yn ateb cwestiynau, ac yn cyfnewid barn
- cyfleu gwybodaeth ac adrodd am ddigwyddiadau'n ddeallus ac yn hyderus, gan ddefnyddio ac addasu iaith at ddibenion newydd
- siarad yn naturiol, gan ymateb i gwestiynau, safbwyntiau neu sefyllfaoedd annisgwyl, gan ddefnyddio strategaethau aralleirio neu atgyweirio i gynnal y cyfathrebu, fel bo'n briodol
- cychwyn a datblygu sgysiau a thrafodaeth, gan siarad yn estynedig
- defnyddio amrywiaeth o eirfa a strwythurau gramadegol yn briodol ac yn gywir, gan ddefnyddio rhai ffurfiau mwy cymhleth, gan gyfeirio at ddigwyddiadau yn y gorffennol, y presennol a'r dyfodol
- defnyddio iaith mewn ffordd greadigol a mwy cymhleth, fel bo'n briodol, i fynegi a chyfiawnhau eu meddyliau a'u safbwyntiau eu hunain
- ynganu a defnyddio tonyddiaeth gywir er mwyn i siaradwr brodorol ddeall yr hyn sy'n cael ei ddweud.

Darllen: deall ac ymateb i fathau gwahanol o iaith ysgrifenedig

- deall ac ymateb i fathau gwahanol o iaith ysgrifenedig
- deall manylion cyffredinol a phenodol mewn testunau gan ddefnyddio iaith gyfarwydd sy'n digwydd yn aml ar draws amrywiaeth o gyd-destunau
- adnabod y neges gyffredinol, pwyntiau allweddol, manylion a safbwyntiau mewn amrywiaeth o ddarnau ysgrifenedig byr a hirach, yn cynnwys rhywfaint o iaith fwy cymhleth, gan adnabod y berthynas rhwng digwyddiadau o'r gorffennol, y presennol a'r dyfodol
- casglu'r ystyr o amrywiaeth o destunau ysgrifenedig byr a hirach o amrywiaeth o gyd-destunau penodol, yn cynnwys ffynonellau gwirioneddol lle mae rhywfaint o iaith gymhleth a deunydd anghyfarwydd i'w cael, yn ogystal â darnau naratif byr a deunydd gwirioneddol yn trafod amrywiaeth eang o themâu cyfoes a diwylliannol perthnasol
- adnabod ac ymateb i wybodaeth allweddol, themâu pwysig a syniadau mewn testun ysgrifenedig mwy estynedig a ffynonellau gwirioneddol, gan gynnwys rhai darnau o destunau llenyddol perthnasol wedi'u talfyrru neu wedi'u haddasu
- arddangos dealltwriaeth drwy allu bwrw golwg cyflym am wybodaeth arbennig, gan drefnu a chyflwyno manylion perthnasol, dod i gasgliadau yn y cyd-destun ac adnabod ystyr dealliedig lle bo'n briodol gwneud hynny
- cyfieithu darn byr o'r iaith a asesir i'r Gymraeg / Saesneg.

Ysgrifennu: cyfathrebu'n ysgrifenedig

- cyfathrebu'n ysgrifenedig yn effeithiol at ddibenion amrywiol ar draws amrywiaeth o gyd-destunau penodol
- ysgrifennu darnau byr o destun, gan ddefnyddio brawddegau syml ac iaith gyfarwydd yn fanwl gywir i gyfleu ystyr a chyfnewid gwybodaeth
- cynhyrchu testun clir a chydlynol sy'n estynedig o ran ei hyd er mwyn cyflwyno ffeithiau a mynegi syniadau a safbwyntiau'n briodol at ddibenion gwahanol ac mewn lleoliadau gwahanol
- defnyddio amrywiaeth o eirfa a strwythurau gramadegol yn fanwl gywir, gan gynnwys rhai ffurfiau mwy cymhleth, er mwyn disgrifio ac adrodd gan gyfeirio at ddigwyddiadau yn y gorffennol, y presennol a'r dyfodol
- trin yr iaith yn gywir, gan ddefnyddio ac addasu amrywiaeth o strwythurau a geirfa gyda chywirdeb a rhuglder cynyddol at ddibenion newydd, gan gynnwys defnyddio arddulliau a chyweiriau addas
- defnyddio iaith mewn ffordd annibynnol, creadigol a mwy cymhleth, fel bo'n briodol, i nodi pwyntiau allweddol, mynegi a chyfiawnhau safbwyntiau a barn unigol, er mwyn ennyn diddordeb, rhoi gwybodaeth neu argyhoeddi
- cyfieithu brawddegau a darnau byr o destun o'r Gymraeg/ Saesneg i'r iaith a asesir er mwyn cyfleu negeseuon allweddol yn fanwl gywir a defnyddio gwybodaeth ramadegol am iaith a strwythurau yn eu cyd-destun.

2.1 Uned 1

Uned 1: Siarad

Prawf llafar: 12 munud o amser paratoi
7-9 munud (Haen Sylfaenol)
10-12 munud (Haen Uwch)

25% o'r cymhwyster
60 marc

Mae'r uned hon yn gofyn i ddysgwyr gyfathrebu ar lafar yn Almaeneg drwy gymryd rhan mewn chwarae rôl, trafod llun ar gerdyn a sgwrs. Bydd asesiad yr adran hon hefyd yn ystyried gwybodaeth am ramadeg a strwythurau a'r defnydd cywir ohonynt. Ymdrinnir â'r tair thema eang ar draws yr holl dasgau.

Gweler adran 3.2 am fanylion llawn y trefniadau ar gyfer cynnal yr asesiad di-arholiad siarad.

Ni chaniateir i ddysgwyr ddefnyddio geiriaduron yn unrhyw ran o'r asesiad.

Tasg 1 – Chwarae rôl

(15 marc)

Yn y chwarae rôl bydd senario yn cael ei osod yn seiliedig ar un o'r themâu eang. Bydd 5 rhyngweithiad a bydd gofyn i'r dysgwr:

- ymateb yn briodol i gwestiynau neu osodiadau sy'n cael eu hysgogi gan y deunydd ysgogi
- ffurfio cwestiwn
- ymateb i gwestiwn annisgwyl.

Bydd yr ymatebion hyn yn targedu geirfa a strwythurau o'r themâu ac yn rhoi cyfle i ddysgwyr ymdrin ag agweddau ar gynnwys y pwnc gan gynnwys cyfathrebu a rhyngweithio mewn sgysiau byr. Bydd y ffurf yn cael ei strwythuro i arwain yr ymgeisydd yn ystod y dasg hon. Bydd y dasg hon yn asesu gallu'r ymgeisydd i ddefnyddio'r iaith a chymhwyso gwybodaeth ieithyddol i gyfathrebu neges yn glir ac yn ystyrlon.

Tasg 2 – Trafod llun ar gerdyn

(15 marc)

Haen Sylfaenol: bydd yr ymgeisydd yn derbyn ysgogiad llun a thri chwestiwn y maent wedi'u gweld o'r blaen i ymateb iddynt yn ystod y drafodaeth. Bydd yr athro/arholwr yn gofyn un cwestiwn ychwanegol nad ydyw wedi'i weld o'r blaen.

Haen Uwch: bydd yr ymgeisydd yn derbyn ysgogiad llun a dau gwestiwn y maent wedi'u gweld o'r blaen i ymateb iddynt yn ystod y drafodaeth. Bydd yr athro/arholwr yn gofyn dau gwestiwn ychwanegol nad ydynt wedi'u gweld o'r blaen.

Bydd yr athro yn arwain y cwestiynau ar gyfer y drafodaeth; fodd bynnag, bydd gan yr ymgeisydd gyfle i adrodd digwyddiadau, siarad yn ddigymell, cyfnewid barnau a gwneud defnydd creadigol o'r iaith.

Tasg 3 – Sgwrs

(30 marc)

Bydd y sgwrs yn ymdrin â chynnwys o ddwy o'r tair thema eang a bydd yn cael ei rhannu'n ddwy ran.

Bydd **Rhan 1** yn ymdrin â'r themâu nad oeddent yn rhan o'r chwarae rôl a llun ar gerdyn. Bydd yr ymgeiswyr yn cael dewis o ddau bwynt bwled y dylent strwythuro eu trafodaeth arnynt. Bydd yn rhoi cyfle i ymgeiswyr siarad yn estynedig, dangos eu gwybodaeth am gynnwys y pwnc nad oedd yn rhan o'r chwarae rôl a thrafod llun ar gerdyn a rhoi tystiolaeth o'u gwybodaeth ieithyddol.

Bydd **Rhan 2** yn cynnig dewis i ymgeiswyr yn seiliedig ar un o'r ddwy thema eang arall nad oeddent wedi ymdrin â nhw yn Rhan 1. Mae'r un broses â Rhan 1 yn berthnasol.

2.2 Uned 2

Uned 2: Gwrandio

Arholiad ysgrifenedig: 35 munud (Haen Sylfaenol) yn cynnwys 5 munud o amser darllen
45 munud (Haen Uwch) yn cynnwys 5 munud o amser darllen

25% o'r cymhwyster
45 marc

Mae'r uned hon yn gofyn i ymgeiswyr ymateb i amrywiaeth o gwestiynau yn Gymraeg/Saesneg a hefyd yn Almaeneg.

Mathau o gwestiynau – Gall y rhain gynnwys amlddewis gydag ymatebion di-eiriau ac ymatebion ysgrifenedig; atebion un gair llenwi'r bwlch; dewis gosodiadau cywir/anghywir; ac ymatebion atebion byr.

Fformat – Asesir dysgwyr ar amrywiaeth o wahanol fathau o iaith lafar yn ystod yr asesiad a allai gynnwys:

- ymsonau
- sgysiau a thrafodaethau
- cyfweiliadau
- cyhoeddiadau a negeseuon.

Bydd y darnau llafar yn cynyddu mewn cymhlethdod wrth i'r papur fynd yn ei flaen. Bydd yr holl gwestiynau'n targedu agweddau penodol ar y cynnwys pwnc.

Ni chaniateir i ddysgwyr ddefnyddio geiriaduron mewn unrhyw ran o'r asesiad.

2.3 Uned 3

Uned 3: Darllen

Arholiad ysgrifenedig: 1 awr (Haen Sylfaenol)

1 awr 15 munud (Haen Uwch)

25% o'r cymhwyster

60 marc

Mae'r uned hon yn gofyn i ddysgwyr ymateb i amrywiaeth o gwestiynau yn Gymraeg/Saesneg a hefyd yn Almaeneg.

Mathau o gwestiynau – Gall y rhain gynnwys amlddewis gydag ymatebion di-eiriau; ymatebion cyfatebol; atebion un gair llenwi'r bwlch; dewis gosodiadau cywir/anghywir; cwestiynau atebion byr; cwblhau gwybodaeth mewn tabl; ac ymatebion hirach.

Fformatau a mathau o destun – Asesir dysgwyr ar fformatau gwahanol o destun a allai gynnwys:

- testun parhaus (rhyddiaith) er enghraifft detholiadau wedi'u haddasu o nofelau, straeon byrion, adolygiadau, negeseuon e-bost, llythyrau ac erthyglau papur newydd
- testun nad yw'n barhaus er enghraifft tablau a graffiau, hysbysebion a ffurflenni
- testunau cymysg gydag elfennau o fformatau parhaus ac amharhaus er enghraifft esboniad mewn rhyddiaith wedi'i gefnogi gan graff neu dabl
- testunau lluosog neu destunau byr sy'n gallu cael eu cysylltu â'i gilydd drwy thema neu gyfosod, er enghraifft hysbysebion gwesty. Gall y testunau gymeradwyo neu wrthddweud ei gilydd.

Bydd gofyn i ddysgwyr gyfieithu darnau byr i'r Gymraeg/Saesneg (35-40 gair ar gyfer haen sylfaenol a 50-55 gair ar gyfer haen uwch). Bydd bob cwestiwn yn targedu agweddau penodol ar gynnwys y pwnc.

Ni chaniateir i ddysgwyr ddefnyddio geiriaduron mewn unrhyw ran o'r asesiad.

2.4 Uned 4

Uned 4: Ysgrifennu

Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 15 munud (Haen Sylfaenol)
1 awr 30 munud (Haen Uwch)

25% o'r cymhwyster
60 marc

Mae'r uned hon yn gofyn i ddysgwyr ymateb yn Almaeneg i amrywiaeth o dasgau ysgrifenedig. Bydd yr asesiad yn yr uned hon hefyd yn ystyried gwybodaeth am ramadeg a strwythurau a'r defnydd cywir ohonynt.

Ni chaniateir i ddysgwyr ddefnyddio geiriaduron mewn unrhyw ran o'r asesiad.

Haen Sylfaenol

Bydd disgwyl i ddysgwyr greu'r canlynol:

- testun byr yn yr iaith a asesir
- testun byr gyda chynnwys penodol (tua 50 gair)
- darn ysgrifenedig estynedig er enghraifft e-bost, llythyr neu ddeunydd hyrwyddo gydag ychydig o gynnwys penodol (tua 100 gair)
- cyfieithiad o frawddegau syml o'r Gymraeg/Saesneg i'r Almaeneg (35–40 gair).

Haen Uwch

Bydd disgwyl i ddysgwyr greu'r canlynol:

- darn ysgrifenedig yn yr iaith a asesir er enghraifft e-bost, llythyr neu ddeunydd hyrwyddo gydag ychydig o gynnwys penodol (tua 100 gair)
- darn ysgrifenedig mwy cymhleth er enghraifft llythyr, e-bost, tudalen we, blog neu adroddiad gydag ychydig o gynnwys penodol (tua 150 gair)
- cyfieithiad o ddarn byr o'r Gymraeg/Saesneg i'r Almaeneg (50–55 gair).

Mae pob cwestiwn yn gysylltiedig ag agweddau penodol ar gynnwys y pwnc a byddant yn ymdrin â'r tair thema eang.

3 ASESU

3.1 Amcanion asesu a phwysoli

Mae amcanion asesu'r fanyleb hon wedi'u rhoi isod. Rhaid i ddysgwyr:

AA1

Gwranddo: deall ac ymateb i fathau gwahanol o iaith lafar.

AA2

Siarad: cyfathrebu a rhyngweithio'n effeithiol wrth siarad.

AA3

Darllen: deall ac ymateb i fathau gwahanol o iaith ysgrifenedig.

AA4

Ysgrifennu: cyfathrebu'n ysgrifenedig.

Mae'r tabl isod yn dangos pwysoli pob amcan asesu ar gyfer pob uned ac am y cymhwyster yn gyffredinol.

	AA1	AA2	AA3	AA4	Cyfanswm
Uned 1		25%			25%
Uned 2	25%				25%
Uned 3			25%		25%
Uned 4				25%	25%
Pwysoli Cyffredinol	25%	25%	25%	25%	100%

3.2 Trefniadau ar gyfer asesiad di-arholiad

Mae asesiad di-arholiad yn cyfrif am 25% o'r cymhwyster TGAU hwn. Canllawiau cyffredinol yw'r canlynol ar gyfer cynnal Uned 1: Siarad. Rhaid cynnal pob asesiad di-arholiad o dan amodau rheoledig fel y nodir isod, ac yn unol â gofynion rheoleiddio.

Pennu tasgau

Ni chaniateir i ddysgwyr ddefnyddio geiriaduron mewn unrhyw ran o'r asesiad.

CBAC fydd yn gosod y tasgau. Caiff yr asesiadau eu cynnal gan athrawon yn y canolfannau, eu recordio'n ddigidol a'u marcio gan arholwyr allanol.

Bydd yr asesiad yn cynnwys tair tasg i'w cynnal yn y drefn ganlynol:

- chwarae rôl
- trafodaeth o lun ar gerdyn
- sgwrs wedi'i rhannu'n ddwy ran (Rhan 1 a Rhan 2).

Bydd pob tasg yn ymdrin ag un o'r themâu eang (gweler tudalen 6). Bydd Rhan 2 o'r sgwrs yn deillio o un o'r themâu eang sy'n weddill, na chafwyd ymdriniaeth ohonynt yn Rhan 1 o'r sgwrs.

Er enghraifft

Tasg	Thema	Is-thema
Chwarae Rôl	Hunaniaeth a diwylliant	Diwylliant ieuenctid
Llun ar Gerdyn	Cymru a'r Byd – meysydd o ddiddordeb	Cartref a'r ardal leol
Sgwrs (rhan 1)	Cyflogaeth ac astudiaeth gyfredol ac yn y dyfodol	Astudiaeth Cyfredol neu Menter, cyflogadwyedd a chynlluniau'r dyfodol
Sgwrs (rhan 2)	Hunaniaeth a diwylliant	Ffordd o Fyw neu Arferion a thraddodiadau

Bydd y tasgau'n cael eu cynnwys mewn llyfryn tasgau pedair tudalen ac yn cael eu labelu'n glir fel set 1 i 9 (1 i 6 o 2021 ymlaen). Bydd cyfanswm o naw set am bob cyfres (chwe set am bob cyfres o 2021 ymlaen), a bydd bob un yn cynnwys cyfuniad gwahanol o themâu eang. Unwaith y bydd cofrestriadau ymgeiswyr wedi'u gwneud, bydd rhestr yn dyrannu set ar gyfer pob ymgeisydd yn cael ei chreu ar hap. Ni ddylai ymgeiswyr gael gwybod pa lyfryn tasgau a ddyrannwyd iddynt cyn eu hasesiad. Mae gofyn i ganolfannau sicrhau bod bob ymgeisydd yn defnyddio'r set gywir.

Cyflawni tasgau

Cynhelir yr asesiadau siarad yn ystod cyfnod o bum wythnos rhwng Ebrill a Mai. Gall canolfannau agor y pecynnau hyd at dri diwrnod gwaith cyn dyddiad cyntaf yr asesu.

Paratoi

Ar y diwrnod(au) y cynhelir yr asesiad, bydd gan bob ymgeisydd gyfnod o 12 munud i baratoi dan oruchwyliaeth. Bydd yr ymgeisydd yn derbyn y set sydd wedi'i ddyrannu iddo/iddi o flaen llaw a gall ddefnyddio'r amser i baratoi'r tasgau. Mae'n rhaid i'r goruchwyliwr sicrhau nad oes gan yr ymgeisydd fynediad at ddeunyddiau ychwanegol yn ystod y paratoi, ac y cedwir at yr amserau paratoi. Yn ystod yr amser paratoi mae gan yr ymgeisydd gyfle i ddewis pa ddau bwynt bwled a gyflwynwyd ar gyfer bob thema yr hoffai eu dewis ar gyfer y dasg sgwrsio.

Gall yr ymgeisydd wneud nodiadau ar un ochr tudalen A4 yn ystod yr amser paratoi os yw'n dymuno, a gall gyfeirio at y nodiadau hyn yn ystod yr asesiad. Bydd y nodiadau'n cael eu rhoi i'r athro ar ddiwedd yr asesiad a dylai'r canolfannau eu cadw nes diwedd y cyfnod Adolygu'r Marcio. Ni fydd cyfyngiad ar nifer y geiriau na'r deunydd sy'n cael eu cynnwys yn y nodiadau, ond ni ddylai'r ymgeisydd ysgrifennu brawddegau llawn di-dor nac ysgrifennu ar y llyfryn tasgau. Ar ddiwedd yr asesiad mae'n rhaid i'r llyfryn tasgau gael ei roi i'r athro.

Amseru

Bydd yr asesiad ar gyfer ymgeiswyr haen sylfaenol yn para 7–9 munud a 10–12 munud ar gyfer yr ymgeiswyr haen uwch. Nid oes gofyniad i oruchwyllo ymgeiswyr cyn yr amser paratoi ffurfiol nac ar ôl yr asesiad. Fodd bynnag, dylai'r canolfannau ystyried yr angen i gyfyngu ar unrhyw gyfleoedd i gyd-drafod wrth osod amserlenni asesu dros y cyfnod o 5 wythnos. Bydd angen i'r canolfannau gadw cofnod o'r amserlen (gan gynnwys dyddiadau) ar gyfer cynnal yr asesiadau. Bydd ffurflen ddilysru i'r ganolfan ei harwyddo ac i ddatgan bod yr asesiadau wedi cael eu cynnal yn ôl y gofynion ac mae'n rhaid i hon gael ei chyflwyno i CBAC gyda'r recordiadau sain.

Fformat yr asesiad

Tasg	Amseru Bras	
	Haen Sylfaenol	Haen Uwch
Chwarae rôl	2 funud	2 funud
Trafodaeth am lun ar gerdyn	2 funud	3 munud
Sgwrs x 2	3-5 munud i gyd	5-7 munud i gyd
Pob Tasg	7-9 munud i gyd	10-12 munud i gyd

Amseru bras ar gyfer pob tasg sydd wedi'i nodi yn y tabl uchod. Os yw'r ymgeisydd wedi cwblhau'r chwarae rôl yn llwyddiannus gallant symud ymlaen i'r dasg nesaf; fodd bynnag, mae'n rhaid i athrawon gadw at yr amseru cyffredinol o 7–9 munud (haen sylfaenol) a 10–12 munud (haen uwch). Ni chaiff unrhyw dystiolaeth siarad sy'n mynd y tu hwnt i'r amser a ganiateir ei marcio.

Bydd ysgogiadau athrawon ar gyfer y chwarae rôl, y cwestiynau a welwyd o'r blaen a chwestiynau ychwanegol ar gyfer trafod y llun ar gerdyn ac arweiniad ar gyfer sgwrs yn cael eu darparu mewn llyfryn cyfansawdd a anfonir at y Swyddog Arholiadau yn y ganolfan mewn pecyn diogel. Cynghorir athrawon i ymgyswrtu â'r deunydd cyn yr asesiadau, hyd at dri diwrnod cyn dechrau'r asesiad cyntaf.

Chwarae rôl

Mae'r chwarae rôl yn cynnwys pum rhyngweithiad a bydd ymgeiswyr yn cael gwybod pwy fydd yn dechrau'r ddeialog ar eu cerdyn tasg.

Trafod llun ar gerdyn

Haen Sylfaenol: bydd yr ymgeisydd yn cael gweld tri chwestiwn yn ei lyfryn tasgau yn ystod y cyfnod paratoi a bydd un cwestiwn arall yn cael ei ofyn nad ydyw wedi'i weld o'r blaen. Bydd yr athro yn arwain y drafodaeth drwy ofyn y tri chwestiwn y maent wedi'u gweld o'r blaen wedi'u dilyn gan yr un cwestiwn nad ydyw wedi'i weld o'r blaen.

Haen Uwch: bydd yr ymgeisydd yn cael gweld dau gwestiwn yn ei lyfryn tasgau yn ystod y cyfnod paratoi a bydd dau gwestiwn arall yn cael eu gofyn nad ydynt wedi'u gweld o'r blaen. Bydd yr athro yn arwain y drafodaeth drwy ofyn y ddau gwestiwn a welwyd wedi'u dilyn gan y ddau gwestiwn nad ydynt wedi'u gweld o'r blaen.

Gall yr athro aralleirio'r cwestiynau, ar yr amod eu bod yn cadw at yr un ystyr a gall hefyd ailadrodd neu aralleirio cwestiynau nad yw'r ymgeisydd yn eu deall.

Sgwrs

Rhan 1

Bydd Rhan 1 o'r sgwrs yn ymdrin â chynnwys o'r thema eang sy'n weddill nad yw'r chwarae rôl a'r drafodaeth o lun ar gerdyn wedi ymdrin â nhw. Mae'n rhaid i'r ymgeisydd ddewis un o'r pwyntiau bwled a enwebir ar gyfer eu trafodaeth. Bydd yr athro/arholwr yn gofyn i'r ymgeisydd pa bwynt bwled y mae wedi'i ddewis. Yna bydd disgwyl i'r ymgeisydd gychwyn y sgwrs. Os nad yw'r ymgeisydd yn gallu gwneud hynny, yna gall yr athro/arholwr ofyn cwestiwn i annog yr ymgeisydd. Bydd hyn yn cael ei adlewyrchu wrth ddyfarnu marciau am gyfathrebu a rhyngweithio.

Rhan 2

Bydd gan yr ymgeisydd ddewis o ddau bwynt bwled o'r thema eang nad yw Rhan 1 o'r sgwrs wedi ymdrin ag ef. Bydd yr athro/arholwr yn gofyn i'r ymgeisydd pa bwynt bwled y mae wedi'i ddewis ac yna'n cychwyn y sgwrs.

Mae'n rhaid i'r athro/arholwr sicrhau bod pob rhan o'r sgwrs yn cael ei hamseru'n gyfartal rhwng 1½ a 2½ munud ar gyfer yr haen sylfaenol a rhwng 2½ a 3½ munud ar gyfer yr haen uwch.

Mae'n bwysig bod gan yr ymgeisydd gyfle i ymateb yn estynedig a'i fod yn cael ei gefnogi gan yr athro. Bydd awgrymiadau o gwestiynau ar gyfer y sgwrs yn cael eu rhoi yn llyfryn cyfansawdd yr athro yn ôl thema. Enghreifftiau yn unig yw'r rhain, nid ydynt yn rhagnodol nac yn gynhwysfawr. Mae'n bwysig bod yr athro yn ymateb i'r hyn y mae'n ei glywed yn hytrach na gofyn rhestr o gwestiynau penodol yn unig.

Dylai'r ymgeisydd geisio gwneud y canlynol yn y ddwy ran o'r sgwrs:

- darparu ffeithiau a gwybodaeth sy'n ymwneud â'r is-thema y maent wedi'u dewis
- rhoi a/neu gyfiawnhau eu syniadau a/neu farn
- adrodd digwyddiadau neu sôn am rywbeth sydd wedi digwydd sy'n gysylltiedig â'r testun
- siarad am eu cynlluniau ar gyfer y dyfodol sy'n berthnasol i'r testun.

Mae perfformiad ymgeiswyr yn dibynnu nid yn unig ar eu sgiliau eu hunain ond hefyd ar natur y cwestiynau ychwanegol y mae'r athro/arholwr yn eu gofyn. Cynghorir yr athro i ymgyfarwyddo â'r disgrifyddion ar y grid asesu a ddarperir ar gyfer sgysiau haen sylfaenol a haen uwch ac i sicrhau bod eu cwestiynau yn rhoi cyfleoedd i'r ymgeiswyr gyflawni eu potensial ym mhob adran o'r cynllun marcio.

4 GWYBODAETH DECHNEGOL

4.1 Cofrestru

Cymhwyster llinol yw hwn lle bydd yr asesiadau i gyd yn digwydd ar ddiwedd y cwrs. Bydd cyfleoedd asesu ar gael yn ystod mis Mai/Mehefin bob blwyddyn, tan ddiwedd oes y fanyleb hon. Bydd y cyfle asesu cyntaf yn haf 2018.

Gellir sefyll cymhwyster fwy nag unwaith. Rhaid i ymgeiswyr ailsefyll pob cydran arholiad yn yr un gyfres.

Gellir trosglwyddo marciau asesu di-arholiad dros gyfnod oes y fanyleb. Os bydd ymgeisydd yn ailsefyll cydran Asesu Di-arholiad (yn hytrach na throsglwyddo marc yr Asesiad Di-arholiad blaenorol), yna'r marc newydd fydd yn cyfrif tuag at y radd gyffredinol, hyd yn oed os yw'n is na'r marc o'r ymgais flaenorol.

Os ardystiodd ymgeisydd ar ddau achlysur neu fwy o'r blaen, y marc o'r asesiad di-arholiad mwyaf diweddar sy'n cael ei drosglwyddo, heb ystyried a yw'r marc hwnnw'n uwch neu'n is (oni bai bod y marc yn absennol).

Mae'n rhaid i'r holl ddysgwyr sy'n dilyn y cymhwyster TGAU Almaeneg gael eu cofrestru ar gyfer cyfanswm o bedair uned. Hefyd, mae'n rhaid i bob dysgwr gael eu cofrestru ar gyfer y cyfnewid cymhwyster.

Mae'r codau cofrestru'n cael eu rhoi isod.

	Teitl	Codau cofrestru	
		Cyfrwng Saesneg	Cyfrwng Cymraeg
Uned 1	Siarad (Haen Sylfaenol)	3820U1	3820N1
	Siarad (Haen Uwch)	3820UA	3820NA
Uned 2	Gwrandio (Haen Sylfaenol)	3820U2	3820N2
	Gwrandio (Haen Uwch)	3820UB	3820NB
Uned 3	Darllen (Haen Sylfaenol)	3820U3	3820N3
	Darllen (Haen Uwch)	3820UC	3820NC
Uned 4	Ysgrifennu (Haen Sylfaenol)	3820U4	3820N4
	Ysgrifennu (Haen Uwch)	3820UD	3820ND
Cyfnewid Cymhwyster TGAU		3820QS	3820CS

Mae rhifyn cyfredol ein dogfen *Dulliau Cofrestru a Gwybodaeth am y Codau* yn rhoi'r dulliau cofrestru diweddaraf.

4.2 Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl

Mae cymwysterau TGAU yn cael eu hadrodd ar raddfa wyth pwynt o A*–G, ac A* yw'r radd uchaf. Bydd y canlyniadau sy'n methu cyrraedd y safon isaf ar gyfer y dyfarniad yn cael eu dangos fel U (annosbarthedig).

Mae dwy haen gofrestru ar gyfer y cymhwyster TGAU hwn mewn Almaeneg: Haen Uwch (Graddau A* - D) a Haen Sylfaenol (Graddau C-G). Yn y rhan fwyaf o achosion, byddem yn disgwyl i'r ymgeiswyr gael eu hasesu ar yr un haen. Yn

eithriadol, gall fod yn briodol cofrestru rhai ymgeiswyr am gyfuniad o unedau haen sylfaenol a haen uwch.

Defnyddir y Raddfa Marciau Unffurf (GMU) mewn manylebau unedol fel ffordd o adrodd, cofnodi a chyfansymu canlyniadau asesiadau uned ymgeiswyr. Caiff ei defnyddio hefyd ar gyfer y cymhwyster TGAU hwn i hwyluso'r drefn o raddio ymgeiswyr sy'n cofrestru am gymysgedd o asesiadau haen sylfaenol a haen uwch. Bydd canlyniadau unedau unigol sy'n cael eu hadrodd ar GMU yn cyfateb i'r graddau canlynol:

Gradd	UCHAFSWM	A*	UWCH	B	C	D	E	F	G
Unedau 1–4	100	90	80	70	60	50	40	30	20

Gan fod pob uned yn cynnwys haenau, yr uchafswm marciau unffurf fydd ar gael ar haen sylfaenol yr asesiad yw 69 (h.y. 1 marc yn is na'r isafswm marciau sydd ei angen i ennill gradd B am yr uned).

Mae'r marciau unffurf a enillwyd am bob uned yn cael eu hadio at ei gilydd a'r radd am y pwnc yn cael ei seilio ar y cyfanswm hwn. Bydd cyfanswm y canlyniadau a adroddir ar y GMU yn cyfateb i'r graddau canlynol:

Gradd	UCHAFSWM	A*	UWCH	B	C	D	E	F	G
Dyfarniad Pwnc	400	360	320	280	240	200	160	120	80

ATODIAD A

Rhestr eirfa TGAU Almaeneg

Ni fydd yr eirfa a ddefnyddir yn yr asesiadau yn cael ei chyfyngu i'r rhestr eirfa hon.

Bwriad y rhestr eirfa hon yw cynnig arweiniad yn unig ac nid yw'n gynhwysfawr. Bydd gorgyffwrdd rhwng is-themâu yn anochel.

Haen Sylfaenol: Bydd gofyn i ddysgwyr ddeall ac ymateb i eiriau a/neu ffurfiau o eiriau cyffredin neu gyfarwydd **nad** ydynt ar y rhestr eirfa.

Haen Uwch: Bydd gofyn i ddysgwyr ddeall ac ymateb i eiriau a/neu ffurfiau o eiriau **nad** ydynt ar y rhestr eirfa, ac nad ydynt mor gyffredin neu gyfarwydd â'r rhai hynny a ddefnyddir mewn perthynas ag asesiadau haen sylfaenol.

Nid yw geiriau cyfansawdd wedi eu cynnwys yn y rhestr eirfa pan fydd enwau sy'n eu creu wedi eu restru eisoes.

HUNANIAETH A DIWYLLIANT: DIWYLLIANT IEUENCTID

HUNAN A PHERTHNASOEDD

Almaeneg	Lluosog	Cymraeg
das Arbeitszimmer	~	stydi/ystafell waith
der Atheismus		anffyddiaeth
das Baby	~s	baban/babi
das Badezimmer	~	ystafell ymolchi
der Bruder	"	brawd
der(die) Christ(in) /dieChristin	~en (~nen)	Cristion
christlich		Cristnogol
der Cousin	~s	cefnider
die Cousine	~n	cyfnither
der Dachboden	"en	atig
das Einzelkind	~er	unig blentyn
Eltern	(pl.)	rhieni
der/die Erwachsene	~n	oedolyn
das Esszimmer	~	ystafell fwyta
die Familie	~n	teulu
der Flur	~e	cyntedd/coridor
die Frau	~e	dynes/ menyw/ gwraig
das Fräulein	~	menyw/merch ifanc;
die Garage	~n	garej
der Garten	"	gardd
Geschwister	(pl.)	brodyr a chwiorydd
der Glaube		cred
die Großmutter	"	nain/mam-gu
der Großvater	"	taid/tad-cu
der Halbbruder	"	hanner brawd
die Halbschwester	~n	hanner chwaer
der Jude/die Jüdin	~n (~nen)	Iddew
jüdisch		Iddewig
der(die) Katholik(in)	~en (~nen)	Catholig
katholisch		catholig
der Keller	~	seler
das Kind	~er	plentyn
die Küche	~n	cegin
die Kusine	~n	cyfnither
der Mann	"er	dyn
der(die) Muslim(in)	~e/s (~nen)	Mwslim
muslimisch		Mwslimaidd
die Mutti	~s	mam
der Neffe	~n	nai
die Nichte	~n	nith
die Oma	~s	nain/mam-gu
der Onkel	~	ewythr
der Opa	~s	taid/tad-cu

das Schlafzimmer	~	ystafell wely
die Schwiegermutter	"	mam yng nghyfraith
der Schwiegersohn	"er	mab yng nghyfraith
die Schwiegertochter	"	merch yng nghyfraith
der Schwiegervater	"	tad yng nghyfraith
das Spielzimmer	~	ystafell chwarae
das Stiefkind	~er	llysblentyn
die Stiefmutter	"	llysfam
der Stiefsohn	"e	llysfab
die Stieftochter	"	llysfarch
der Stiefvater	"	llystad
die Tochter	"	merch
die Toilette	~n	toiled
die Treppe	~n	grisiau/ staer
der/die (Un)Gläubige	~n	crediniwr (anghrediniwr) (eb)
der Vater	"	tad
verwandt (mit)		perthyn (i)
der/die Verwandte	~n	perthynas/perthnasau
der Vetter	~n	cefnwr
das Wohnzimmer	~	llofa/ystafell fyw
Zwillinge	(pl.)	efeilliaid
auskommen (mit)		Cyd-dynnu/dod ymlaen â rhywun
Befreundet sein mit		bod yn ffrindiau gyda
bekannt		adnabyddus/enwog
der/die Bekannte	~n	un o'm cydnabod/ cydnabod i mi
die Bekanntschaft	~en	un o'm cydnabod/ cydnabod i mi
begrüßen		cyfarch/ croesawu
besprechen		siarad/ trafod
dürfen		cael caniatâd i
sich einig sein		cytuno
einverstanden		wedi cytuno
eng		cul, tynn, cyfyng, agos at
erlauben		caniatáu/ gadael i
die Erlaubnis	~se	caniatâd
der/die Erwachsene	~n	oedolyn
die Freundschaft	~en	cyfeillgarwch
gern haben		hoffi
geschieden		wedi ysgaru,gwahanu
der Gruß	"e	cyfarchiad
hassen		ffieiddio/casáu
heiraten		priodi
helfen		helpu
kennenlernen		dod i adnabod, cyfarfod
der Kreis	~e	cylch
lieb (~er, ~e)		annwyl, addfwyn

die Liebe		cariad
lieben		caru/dwli ar
mögen		hoffi
das Paar	~e	cwpl
recht haben		bod yn iawn/yn gywir
unfair		ddim yn deg/annheg
verbieten		gwahardd
das Verhältnis	~se	perthynas
verheiratet		yn briod/wedi priodi
verlobt		wedi dyweddïo
Verständnis		amgyffred, dealltwriaeth (o rywbeth)
verständnisvoll		ystyrlon, â chydymdeimlad
verstehen		deall
sich verstehen mit		cyd-dynnu/dod ymlaen â
verwandt sein (mit)		perthyn i
wollen		eisiau

Ffasiwn

Almaeneg	Lluosog	Cymraeg
anprobieren		trio ymlaen
der Anzug	"e	siwt
das Armband	"er	breichled
der Badeanzug	"e	gwisg nofio
billig		rhad
blau		glas
die Bluse	~n	blows
eng		cul, tynn
formell		ffurfiol
gelb		melyn
gestreift		streipiog
der Geldschein	~e	arian papur
groß		mawr
die Größe	~n	maint
grün		gwyrdd
der Gürtel	~	gwregys
die Halskette	~n	cadwyn/ mwclis
der Handschuh	~e	maneg
die Handtasche	~n	bag llaw
das Hemd	~en	crys
die Hose	~n	trowsus
der Hut	"e"	het
die Jacke	~n	siaced
kariert		patrwm sgwâr/siec
das Kleid	~er	ffrog
die Kleidung		dillad

klein		bach
konventionell		confensiynol
die Krawatte	~n	tei
kurz		byr
der Lippenstift	~e	minlliw
das Make-up		colur
der Mantel	"e	cot
die Mode	~n	ffasiwn
das Modegeschäft	~e	siop ffasiwn
modisch		ffasiynol
die Mütze	~n	cap
der Nasenring	~e	modrwy trwyn
der Ohrring	~e	clustdlws
passen		ffitio, siwtio
das Piercing	~s	clustdlws (<i>piercing</i>)
der Pullover	~	siwmpwr
der Regenmantel	"e	cot law
der Rock	"e	sgert
rot		coch
die Sandale	~n	sandal
der Schal	~s (auch~e)	sgarff
schick		ffasiynol, smart
der Schein	~e	(arian) papur
der Schlips	~e	tei
der Schmuck		gemwaith
der Schuh	~e	esgid
schwarz		du
die Shorts		siorts
die Socke	~n	hosan
der Sportschuh	~e	esgid chwaraeon/ymarfer
der Stiefel	~	esgid bŵt, esgid fawr
die Strumpfhose	~n	teits
die Tasche	~n	bag, poced
die Tätowierung	~en	tatŵ
teuer		drud
tragen		gwisgo
das T-Shirt	~s	crys T
die Umkleidekabine	~n	ystafell newid
weiß		gwyn
zahlen		talw

TECHNOLEG A CHYFRYNGAU CYMDEITHASOL

Almaeneg	Lluosog	Cymraeg
abbrechen (eine Aktion)		dileu/canslo (gweithred)
abspeichern		cadw/arbed/storio
anhängen		atodi
anschalten		rhoi/troi ymlaen
anwenden		gweithredu/defnyddio
die Anwendung	~en	gweithrediad/defnydd
ausdrucken		argraffu
ausschalten		troi i ffwrdd
auswählen		dewis
der Befehl	~e	gorchymyn
benutzen		defnyddio
bewegen (sich)		symud
der Bildschirm	~e	sgrin
blättern		pori
chatten		sgwrsio
der Computer	~	cyfrifiadur
die Computernetzwerk	~e	rhwydwaith cyfrifiadur
der Cursor	~s	cyrchwr
die Datei	~en	ffeil
drucken		argraffu
drücken		gwasgu, pwysu
der Drucker	~	Argraffydd
eingeben		Mewnbynnu
die Einstellung	~en	gosodiad
die E-Mail	~s	e-bost
empfangen		derbyn
entfernen		dileu/cael gwared â
erstellen		creu
das Fenster	~	ffenestr
das Handy	~s	ffôn symudol
herunterladen		llwytho i lawr
hochladen		llwytho i fyny
individuell vornehmen		addasu
die Informatik		TGCh
das Internet		rhyngwrwyd
der iPod	~s	iPod
das iPad	~s	iPad
das Kennwort	~er	cyfrinair
der Kopfhörer	~	clustffonau
löschen		dileu
die Maus	~e"	llygoden
der Mauszeiger	~	pwntydd y llygoden
das Menü	~s	dewislen
im Netz surfen		pori'r we
die Option	~en	opsiwn
der Ordner	~	ffeil
die Pfeiltaste	~n	bysell saeth

das Programm	~e	rhaglen
die Schriftart	~en	ffont
die Schriftgröße	~n	maint y ffont
senden		anfon
simsen		tecstio
soziale Medien		cyfryngau cymdeithasol
speichern		cadw (arbed)
die Suchmaschine	~n	peiriant chwilio
das Symbol	~e	eicon
das Tablet	~s	tabled
die Tastatur	~en	allweddell
die Taste	~n	allwedd
Text bearbeiten		golygu testunau
umbenennen		ailenwi
die Umschalttaste	~n	bysell SHIFT
vergrößern		chwyddo
verkleinern		lleihau
das Verzeichnis	~se	cyfeirlyfr, mynegai
wiederherstellen		adfer
ziehen		llusgo
der Zugang	"e	mynediad

HUNANIAETH A DIWYLLIANT: FFORDD O FYW

IECHYD A FFITRWYDD

Almaeneg	Lluosog	Cymraeg
abhängig		caeth
die Abhängigkeit	~en	caethiwed/dibyniaeth
abnehmen		colli pwysau
der Alkohol		alcohol
die Allergie	~n	alergedd
allergisch		alergaidd
der Arm	~e"	braich
der Arzt	"e	meddyg (dyn)
die Ärztin	~nen	meddyg (menyw)
atemlos		byr o wynt
das Auge	~n	llygad
ausruhen (sich)		gorffwys
der Bauch	~e	bol/bola; abdomen
behandeln		trin
die Behandlung	~en	triniaeth
das Bein	~e	coes
die Bewegung		ymarfer corff
das Blut		gwaed
bluten		gwaedu
brechen		torri
die Diät	~en	deiet (colli pwysau)
die Droge	~n	cyffur(iau)
der Durchfall		dolur rhydd
erholen (sich)		gwella

die Erholung		adferiad
die Erkältung	~en	annwyd
die Ernährung		deiet (maethiad)
erleiden		dioddef
ernst		difrifol
die Essstörung	~en	anhwylder bwyta
die E-Zigarette	~n	e-sigarét
fallen		disgyn/cwympo
die Fettleibigkeit		gordewdra
das Fieber		gwres, twymyn
der Finger		bys
fit		ffit
der Fuß	"e	troed
gesund		iachus
die Gesundheit		iechyd
das Gesundheitsrisiko	~risiken	risg iechyd
die Grippe	~n	fflw
die Gymnastik		gymnasteg
der Hals	"e	gwddf, llwnc
Halsschmerzen	(pl.)	dolur gwddf/ llwnc tost
die Hand	"e	llaw
die Hilfe	~n	help, cymorth
impfen		brechu
die Impfung	~en	brechiad
die Klinik	~en	clinig, ysbyty
der Kopf	"e	pen
Kopfschmerzen	(pl.)	cur pen/ pen tost
der Körper	~	corff
krank		sâl
das Krankenhaus	"er	ysbyty
der Krankenwagen	~	ambiwllans
der Magen	"	stumog
Magenschmerzen	(pl.)	poen yn y stumog/stumog tost
die Magersucht		anorecsia
das Medikament	~e	meddyginiaeth, moddion
die Medizin		moddion, hefyd: Meddygaeth (cwrs gradd)
müde		blinedig/wedi blino
der Mund	"er	ceg
normal		normal
das Ohr	~en	clust
Ohrenscherzen	(pl.)	clust tost/pigyn clust
die Operation	~en	triniaeth
der Optiker/die Optikerin	~/nen	optegydd
die Pille	~n	pilsen
die Praxis	Praxen	meddygfa
das Rauchen		ysmygu
rauchen		ysmygu
das Rezept	~e	presgripsiwn; rysâit

der Rücken	~	cefn
die Salbe	~n	eli, hufen
sauber		glân
der Schmerz	~en	poen
der Schnupfen	~	annwyd
die Schulter	~n	ysgwydd
schwach		gwan
der Sonnenbrand	"e	llosg haul
stark		cryf
sterben		marw
der Stich	~e	pigiad
die Sucht	"e	dibyniaeth
süchtig		caeth, dibynnol
das Symptom	~e	symptom
die Tablette	~n	tabled
der Termin	~e	apwyntiad
tot		wedi marw
der Tropfen	~	diferyn
übergeben (sich)		chwydu
der Unfall	"e	damwain
ungesund		afiach, ddim yn iach
der Verband	"e	rhwymyn, gorchudd
(sich) verletzen		anafu
die Verletzung	~en	anaf
verstauchen		ysigiad (<i>to sprain</i>)
weh tun (sich)		anafu, brifo
die Wunde	~n	clwyf
der Zahn	"e	dant
der Zahnarzt	"e	deintydd (dyn)
die Zahnärztin	~nen	deintydd (menyw)
Zahnschmerzen	(pl.)	y ddannoedd

Chwaraeon

Almaeneg	Lluosog	Cymraeg
das Aerobic		aerobeg
die Bewegung	~en	ymarfer
draußen		y tu allan
drinnen		tu mewn
das (Eis)Hockey		hoci (rhew/iâ)
das Eislaufen		sglefrio iâ
das Fitnessstudio	~s	campfa
der Fußball	"e	pêl-droed
klettern		dringo
die Leichtathletik		athletau
die Mannschaft	~en	tîm
das Mitglied	~er	aelod
radfahren		beicio
reiten		marchogaeth

das Rugby		rygbi
das Schwimmbad	"er	pwll nofio
schwimmen		nofio
Sport treiben		cymryd rhan mewn chwaraeon
die Sportsendung	s~en	rhaglen chwaraeon
tanzen		dawnsio
das (Tisch)Tennis		tennis (bwrdd)
das Turnen		gymnasteg
die Wanderung	~en	cerdded/heicio

ADLONIAENT A HAMDDEN

Almaeneg	Lluosog	Cymraeg
der Abenteuerfilm	~e	ffilm antur
das Angeln		pysgota, genweirio
anrufen		ffonio
der Ausflug	"e	trip/taith
ausgeben		gwario (arian)
ausgehen		mynd allan
das Ballett	~e	bale
die Band	~s	band
beginnen		dechrau
die Blockflöte	~n	recorder (offeryn)
blöd		gwirion/dwl
das Brettspiel	~e	gêm fwrdd
die Briefmarke	~n	stamp
die Disko	~s	disgo
der Dokumentarfilm	~e	ffilm ddogfen
der Einkauf	"e	siopa
einkaufen		mynd i siopa
das Einkaufszentrum	~zentren	canolfan siopa
einladen		gwahodd
die Einladung	~en	gwahoddiad
fernsehen		gwylio teledu
der Fernseher	~	set deledu
der Film	~e	ffilm
die Flöte	~n	ffliwt
die Freizeit		amser hamdden
der Freizeitpark	~s	parc hamdden
furchtbar		ofnadwy
gehen		mynd
die Geige	~n	feiolin
das Geld		arian
das Geschenk	~e	anrheg
gewinnen		ennill
die Gitarre	~n	gitâr
die Gruppe	~n	grŵp

hassen		casáu
hören		clywed; gwranddo ar
der Horrorfilm	~e	ffilm arswyd
das Instrument	~e	offeryn
interessant		diddorol
der Jugendklub	~s	clwb ieuenctid
das Jugendzentrum	~zentren	canolfan ieuenctid
die Kamera	~s	camera
die Karte	~n	tocyn
kaufen		prynu
kegeln		bowlio
das Kino	~s	sinema
die Kindersendung	~en	rhaglen i blant
das Klavier	~e	piano
das Konsolenspiel	~e	gêm consol
komisch		doniol, difyr
die Komödie	~n	comedi
kosten		costio
der Krimi	~s	stori/ffilm/sioe drosedd
langweilig		diflas
lesen		darllen
lieben		caru/dwli ar
die Liebesgeschichte	~n	stori garu
die Lieblingssendung	~en	hoff raglen
das Lied	~er	cân
das Lotto		loteri genedlaethol
lustig		doniol/digrif
meinen		meddwl, dweud, golygu
die Meinung	~en	barn
mögen		hoffi
die Münze	~n	darn arian
die Musik		cerddoriaeth
die Musiksendung	~en	rhaglen gerddoriaeth
die Nachrichten	(pl.)	newyddion
die Oper	~n	opera
das Orchester	~	cerddorfa
die Party	~s	parti
die Popmusik		cerddoriaeth bop
das Programm	~e	sianel teledu
die Quizsendung	~en	rhaglen gwis
radfahren		beicio
das Radio	~s	radio
die Rockmusik		cerddoriaeth roc
der Roman	~e	nofel
das Sachbuch	"er	llyfr ffeithiol
sammeln		casglu
die Sammlung	~en	casgliad
der/die Sänger(in)	~/~nen	canwr

das Schachspiel	~e	gwyddbwyll
der/die Schauspieler(in)	~/~nen	actor
das Schlagzeug	~e	drymiau
die Seifenoper	~n	opera sebon
die Sendung	~en	rhaglen
die Serie	~n	cyfres, cyfresol
singen		canu
sparen		arbed (arian)
die Sportsendung	~en	rhaglen chwaraeon
stattfinden		digwydd
die Talkshow	~s	sioe sgwrsio
tanzen		dawnsio
das Taschengeld		arian poced
toll		gwydych
(sich) treffen (mit)		cyfarfod, cwrdd â
der Trickfilm	~e	cartŵn
die Trompete	~n	utgorn
üben		ymarfer
die Unterhaltung	~en	adloniant
die Verabredung	~en	apwyntiad, trefnu cwrdd
verdienen		ennill (<i>to earn</i>)
der Verein	~e	clwb
verkaufen		gwerthu
der Verkäufer(in)	~/~nen	gwerthwr
vorziehen		ffafrio
die Werbung	~en	hysbysebu
der Zeichentrickfilm	~e	cartŵn
die Zeitschrift	~en	cylchgrawn
die Zeitung	~en	papur newydd

HUNANIAETH A DIWYLLIANT: ARFERION A THRADDODIADAU

BWYD A DIOD

das Abendbrot	~e	swper/pryd nos
das Abendessen	~	swper/pryd nos
die Ananas	~/se	pinafal
der Apfel	"e	afal
die Apfelsine	~n	oren
der Appetit		chwant bwyd
die Aprikose	~n	bricyllen (<i>apricot</i>)
der Aufschnitt		(sleisys o) gig oer
die Banane	~n	banana
das Besteck	~e	cylllyll a ffyrc
die Birne	~n	gellygen
der Blumenkohl	~e	blodfresychen
die Bockwurst	"e	math o selsig porc

die Bohne	~n	ffeuen (ffa)
das Bonbon	~s	losin
braten		rhostio; ffrio
der Braten	~	rhost; darn o gig
die Bratkartoffel	~n	tatws rhost/wedi'u ffrio
